



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Trefniadau asesu: tymor yr haf 2021

Canllawiau i ysgolion a lleoliadau ar asesu dysgwyr ar gyfer tymor yr haf 2021, gan gynnwys ystyriaethau allweddol o ran cefnogi cynnydd dysgwyr a chefnogi astudiaethau achos. Mae hyn yn ymwneud ag arferion asesu arferol, nid y trefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cymwysterau cyffredinol eleni.

Cyhoeddwyd gyntaf: 7 Ebrill 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 7 Ebrill 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyflwyniad

Pam ydym yn asesu

Sut y dylem asesu?

Beth y dylem ei asesu?

Pontio

Cyflwyniad

Mae'r **wybodaeth ategol** a gyhoeddwyd yn ddiweddar i'r **canllawiau dysgu** yn rhoi manylion i ysgolion a lleoliadau i'w helpu i feddwl a chynllunio ar gyfer tymor yr haf. Roedd yr wybodaeth ategol yn nodi y bydd y gofynion cyfreithiol ar gyfer asesiadau diwedd cyfnod allweddol (Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2 a 3) a'r cymedroli cysylltiedig ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn cael eu datgymhwyso ar gyfer tymor yr haf 2021, er mwyn creu lle a hyblygrwydd i gefnogi dull mwy unigol o asesu. Mae'r lle a'r hyblygrwydd a geir drwy ddatgymhwyso asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 yn rhoi cyfle i ymdrin ag arferion asesu mewn ffordd wahanol wrth baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor ynghylch yr hyn y dylai'r asesu ganolbwyntio arno dros y tymor nesaf ac yn rhoi rhai enghreifftiau o'r mathau o sgysiau a ddylai ddigwydd i gefnogi cynnydd dysgwyr unigol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Pam ydym yn asesu

Mae asesu yn rhan annatod o gynllun y cwricwlwm a'i ddiben cyffredinol yn y cwricwlwm, fel yr amlinellir yn **cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu**, yw cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Mae'n hanfodol o ran dysgu ac addysgu ac mae angen partneriaethau effeithiol ymhlith pawb sy'n gysylltiedig, gan gynnwys y dysgwr.

Asesu ar gyfer cynnydd dysgwyr

Mae cynnydd dysgwyr ar hyd continwrm dysgu o 3 i 16 oed yn ganolog i Gwricwlwm Cymru, gyda'r gwaith asesu'n canolbwyntio ar ddarparu tystiolaeth i lywio a chefnogi cynnydd dysgwyr. Mae asesu'n chwarae rôl sylfaenol o ran galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau ei fod yn cael ei gefnogi a'i herio yn unol â hynny.

Mae 'cynnydd' yn y cyd-destun hwn yn cynnwys cynnydd o ran dyfnder ac ehangder gwybodaeth, o ran ymestyn a mireinio sgiliau ac o ran datblygu prosesau dysgu, gan gynnwys annibyniaeth a gwydnwch.

Bydd asesu yn y cwricwlwm newydd yn adeiladu ar yr arferion cyfredol er mwyn cryfhau'r ffocws ar y dysgwr unigol fel ein bod yn gallu disgrifio'n gliriach ei gyflawniadau a'i gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, y meysydd y mae angen eu datblygu ac unrhyw gymorth y gall fod ei angen i lywio'r camau nesaf yn y dysgu a'r addysgu.

Asesu i gefnogi lles dysgwyr

Mae lles dysgwyr yn ffocws allweddol yn y tymor sydd i ddod. Gall asesu ar gyfer cynnydd dysgwyr, ymgorffori asesu yn yr arferion dyddiol, ymgysylltu â'r dysgwyr a'u cynnwys yn y broses o ddeall ac yna cynllunio eu taith eu hunain oll gyfrannu at gefnogi lles y dysgwyr. Wrth i'w dealltwriaeth o'u dysgu a'u cynnydd ddyfnhau, wrth i'w hymdeimlad o ymreolaeth a rheolaeth gryfhau ac wrth i'w gallu a'u parodrwydd i rannu cyfrifoldeb am eu dysgu ddatblygu, bydd eu teimladau o les yn debygol o gael eu cryfhau. Ceir awgrymiadau i ymarferwyr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ystyried a myfyrio ymhellach yn y maes hwn yn **asesu a lles dysgwyr: systemau cymorth cydfuddiannol**.

Sut y dylem asesu?

I gefnogi cynnydd dysgwyr unigol, mae tri phrif ddiben i asesu:

- cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- pennu cynnydd dysgwyr unigol dros amser, llunio darlun ohono, a myfyrio arno
- deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion

Wrth gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu, dylai ysgolion ac ymarferwyr fod yn glir ynghylch rôl benodol pob asesiad sy'n cael ei gynnal, ac ar gyfer beth fydd y dystiolaeth a'r ddealltwriaeth sy'n deillio o'r asesiad yn cael eu defnyddio a pham.

Mae asesu'n chwarae rôl sylfaenol o ran sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol. Dylai gyfrannu at ddatblygu darlun cyfannol o'r dysgwr; ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'r meysydd y mae angen eu datblygu; er mwyn llywio'r camau nesaf yn y dysgu a'r addysgu.

Gall **asesiadau personol**, fel ffordd hyblyg o gael gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd er mwyn cefnogi anghenion dysgwyr unigol, gyfrannu at y dull hwn.

Mae profiad proffesiynol a gwybodaeth yr ymarferydd o ddysgu eu dysgwyr yn sylfaen ar gyfer adeiladu a rhannu darlun cyfannol o les y dysgwyr, eu cynnydd hyd yma a'r camau y bwriedir iddynt eu cymryd nesaf yn eu dysgu.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Beth y dylem ei asesu?

Asesiad

Trefniadau Haf 2021
arferol

Cyfnod Sylfaen: asesu sylfaenol

- Gall ymarferwyr ddefnyddio Proffil llawn y Cyfnod Sylfaen i gefnogi eu dealltwriaeth o anghenion dysgu a datblygu pob dysgwr, a defnyddio'r adnodd i adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

- Ni fydd yn ofynnol i ysgolion gynnal asesiadau terfynol na chadw cofnod ohonynt, ac ni fydd Casglu Data Cenedlaethol yn digwydd ym mlwyddyn academaidd 2020/21.
- Mae'n hanfodol bod amser a lle'n cael eu neilltuo i sicrhau bod anghenion dysgu a datblygu dysgwr yn cael eu hasesu a'u deall, a bod y dysgwr yn cael ei gefnogi i symud ar gyflymder sy'n gyson â'i anghenion datblygu ei hun. Yn unol â dull addysgeg y Cyfnod Sylfaen, mae cyflwyno dysgu mwy ffurfiol yn y Cyfnod Sylfaen yn amhriodol ac ni ddylid ei ystyried.

Asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2

- Ni fydd yn ofynnol i ysgolion gynnal asesiadau terfynol na chadw cofnod ohonynt, ac ni fydd Casglu Data Cenedlaethol yn digwydd ym mlwyddyn academaidd 2020/21.
- Mater i ysgolion unigol fydd penderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion eu dysgwyr a chefnogi cynnydd; dylai hyn gael ei arwain gan y **chwe egwyddor asesu allweddol**.
- Bydd angen i ysgolion wneud darpariaeth ar gyfer pontio. Dylai profiad proffesiynol a gwybodaeth am eu dysgwyr lywio'r drafodaeth i adeiladu ar gynnydd a'i gefnogi.

Asesiadau ar ddiwedd Cyfnod

- Ni fydd yn ofynnol i ysgolion gynnal asesiadau terfynol na chadw cofnod ohonynt, ac ni fydd Casglu Data Cenedlaethol yn digwydd ym mlwyddyn academaidd 2020/21.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Trefniadau arferol Haf 2021

- Allweddol 3
- Mater i ysgolion unigol fydd penderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion eu dysgwyr a chefnogi cynnydd; dylai hyn gael ei arwain gan y **chwe egwyddor asesu allweddol**.
 - Bydd angen i ysgolion ystyried sut i gefnogi pontio rhwng cyfnodau allweddol. Dylai profiad proffesiynol a gwybodaeth am eu dysgwyr lywio'r drafodaeth i adeiladu ar gynnydd a'i gefnogi.

- Cymedroli asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3
- Ni ddisgwylir y bydd y sgysiau cymedroli ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn cael eu cynnal.
 - Fodd bynnag, gall ysgolion drefnu sgysiau o fewn eu rhwydweithiau er mwyn helpu dysgwyr i symud ymlaen ar draws y rhwydwaith neu ar draws cyfnodau allweddol, ac fe'u hanogir i wneud hynny.

- Asesiadau personol ar gyfer darllen a rhifedd
- Bydd y gofynion ynghylch **asesiadau personol** yn parhau ar sail ymdrechion rhesymol ac anogir ysgolion i'w defnyddio er mwyn i athrawon allu deall a diwallu anghenion dysgwyr unigol.

Cyfathrebu clir

Bydd angen i gyfathrebu clir a gweithredol fod yn ganolog i'r asesu yn ystod y tymor hwn. Yn lle'r wybodaeth o'r asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3, anogir ymarferwyr i ddefnyddio eu profiad proffesiynol a'u dealltwriaeth o'u dysgwyr unigol i lywio sgysiau agored a gonest gyda'u cydweithwyr, rhieni/gofalwyr, a'r dysgwyr eu hunain er mwyn trafod anghenion dysgwyr unigol a rhoi adborth ar gynnydd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr

Efallai y bydd llawer o rieni/gofalwyr yn poeni am gynnydd eu plant o ganlyniad i'r tarfu a achoswyd i ddysgu arferol dros y flwyddyn ysgol ddiwethaf. Efallai y bydd gan rai rhieni/gofalwyr bryderon ynghylch hepgor y disgrifyddion lefel arferol i gynhoi cynnydd eu plentyn. Yn nhymor yr haf eleni, dylid rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu'n weithredol â rhieni/gofalwyr er mwyn esbonio'r newidiadau eleni a'u helpu i ddatblygu dealltwriaeth glir o gynnydd eu plentyn a'i anghenion yn y dyfodol a sut y gallant gefnogi'r anghenion hynny. Bydd yr ymgysylltu hwn yn helpu i roi sicrwydd i rieni/gofalwyr nid yn unig ynghylch cynnydd eu plentyn ond hefyd ynghylch lles y plentyn, ei drosglwyddo yn ôl i'r ysgol a sut mae'n cymryd rhan mewn dysgu.

Bydd cyfathrebu â rhieni/gofalwyr fel hyn yn arbennig o bwysig i'r dysgwyr hynny sy'n pontio i'r ysgol uwchradd neu i flynyddoedd cymwysterau; bydd yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, yn enwedig lle nodir bod angen cymorth ychwanegol ar gyfer cynnydd.

Anogir defnyddio ystod eang o ddulliau cyfathrebu, e.e. rhithiol wyneb yn wyneb, ysgrifenedig, digidol etc, a gall y rhain adeiladu ar y cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol a wnaed eisoes yn ystod y cyfnod dysgu o bell.

Adrodd effeithiol

Mae gweithdrefnau adrodd effeithiol yn bwysig ar gyfer cyfathrebu da â rhieni/gofalwyr.

Bydd darparu adroddiadau ar bob dysgwr yn parhau i fod yn ofyniad statudol ar gyfer blwyddyn ysgol 2020/21 er mwyn rhoi sicrwydd o gynnydd i rieni/gofalwyr. Mae'r dyletswyddau penodol sy'n nodi'r cynnwys ar gyfer adroddiadau ar gyflawniad addysgol dysgwyr wedi'u diwygio i sail ymdrechion rhesymol, gan adlewyrchu'r newidiadau i'r asesiadau diwedd cyfnod eleni.

Mae'r newid hwn yn rhoi'r cyfle i ysgolion ddarparu adroddiadau sydd wedi'u personoli er mwyn annog ysgogiad ac ymgysylltu. Gan ddefnyddio gwybodaeth athrawon am eu dysgwyr a'r wybodaeth arall sydd ar gael iddynt, rydym am i'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

adroddiadau gynnwys gwybodaeth am:

- les cyffredinol dysgwyr unigol a sut maent yn cymryd rhan mewn dysgu, yn enwedig yng ngoleuni'r tarfu dros y flwyddyn ddiwethaf
- gynnydd dysgwyr unigol, eu cryfderau penodol, y meysydd y mae angen eu datblygu a'r camau nesaf

Gallai adroddiadau hefyd gynnwys manylion y gweithgarwch a gynlluniwyd gan yr ysgol i helpu'r dysgwr i gyflawni ei gamau nesaf, ynghyd â manylion y cymorth sydd ei angen arno gartref a fydd yn ychwanegu gwerth at yr hyn y mae'n ei wneud yn yr ysgol ac yn ei helpu i wneud cynnydd.

Rydym wedi cyhoeddi rhai astudiaethau achos gydag enghreifftiau da o sut i fynd ati i gyfathrebu ac ymgysylltu, gan gynnwys llunio adroddiadau:

Adrodd i rieni/gofalwyr: Ysgol Gynradd Glyncollen

Adrodd i rieni/gofalwyr: Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî

Adrodd i rieni/gofalwyr: Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Adolygiadau dysgu gyda rhieni/gofalwyr

Mae adolygiadau dysgu gyda rhieni/gofalwyr yn ffordd bwysig a chyfarwydd arall o gyfathrebu â rhieni/gofalwyr. Dylai pob ysgol gynnal trafodaeth â rhieni/gofalwyr, gan fanteisio ar yr hyblygrwydd y mae cyfarfodydd rhithiol yn ei gynnig i sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf posibl. Os nad oes gan deuluoedd y dechnoleg i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol, byddai sgwrs ffôn yn ddewis amgen effeithiol.

Pontio

Bydd y sgwrsiau pontio a gynhelir ar hyn o bryd yn hanfodol i helpu i gefnogi taith y dysgwr ymlaen i'r cam nesaf. Dylai ymarferwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad, yn ogystal â'r ymddiriedaeth yn eu dealltwriaeth o gynnydd, i gynnal sgwrsiau sy'n canolbwyntio ar 'pam' a 'sut', gan ganolbwyntio ar y camau nesaf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

a'r cymorth sydd ei angen i'w cyflawni.

Dylai diwallu anghenion lles pob dysgwr fod yn rhan bwysig ac annatod o'r broses bontio. Dylai'r sgysiau ganolbwyntio ar anghenion a lles cyffredinol y dysgwr, gan roi darlun cyfannol clir o ddatblygiad a chynnydd y dysgwr ar draws ehangder y cwricwlwm ysgol sy'n cael ei ddarparu.

Dylid ystyried cyfleoedd i gynnwys dysgwyr yn y cyfnod pontio.

Yn yr amgylchiadau arferol, byddai llawer o ddysgwyr Blwyddyn 6 yn cael cynnig y cyfle i ymweld â'u hysgol newydd fel rhan o'u cynlluniau pontio cytûn. Y llynedd, rhoddodd llawer o ysgolion drefniadau rhithiol ar waith i gefnogi dysgwyr yn eu taith bontio. Eleni, mater i ysgolion unigol yn unol â'r **canllawiau gweithredol** a'u sefyllfa leol ar y pryd, fydd penderfynu ar y trefniadau mwyaf priodol i gefnogi cyfnod pontio dysgwyr, ond byddwn yn annog ysgolion i barhau i fod yn arloesol ac yn greadigol wrth gefnogi lles dysgwyr fel rhan o broses bontio effeithiol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Trefniadau asesu: tymor yr haf 2021](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).